

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg  
Welsh Language Commissioner



**Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner**

LG 47  
Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)  
Local Government and Elections (Wales) Bill  
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg  
Response from: Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Drwy e-bost: [SeneddCymunedau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCymunedau@cynulliad.cymru)

08/01/2020

Annwyl Bwyllgor,

## Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

1. Diolch ichi am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Mae fy sylwadau wedi'u cyfyngu i effaith y ddeddfwriaeth ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio. Gwneir hynny yn arbennig yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg sy'n deillio ohono.

### Cefndir

2. Ers 2016 mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg<sup>1</sup> yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r safonau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, hybu'r Gymraeg, gweithredu (sef gweithgareddau mewnol sefydliad) a chadw cofnodion. Bwriad y safonau llunio polisi yw sicrhau y caiff y canlynol eu hystyried pan gaiff penderfyniad polisi ei wneud:

(a) pa effeithiau, os o gwbl, (a pha un a yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

<sup>1</sup> Gweler y safonau perthnasol mewn [hysbysiadau cydymffurfio](#) ar gyfer pob awdurdod lleol sydd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

**Comisiynydd y Gymraeg**  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

**Welsh Language Commissioner**  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)  
Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)



(b) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid cadw mewn cof y gofyn i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi hyn wrth osod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol o dan Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac wrth lunio unrhyw ganllawiau perthnasol.

### Sylwadau penodol

3. Hoffem gynnig sylwadau yn benodol ar adrannau canlynol y Bil:

- Adran 4 – Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth
- Adran 22 – Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais
- Adran 29 – Cyfieithiadau etc. o ddogfennau mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru
- Adran 31 – Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol
- Adran 34 – Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol
- Adran 47 – Strategaeth ar annog cyfranogiad
- Adran 48 – Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu
- Adran 51 – Canllawiau ar gyfer swyddogaethau o dan y Bennod hon
- Adran 53 – Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol
- Adran 74 – Canllawiau ynglŷn â chydweithio
- Pennod 3 – Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan fo cais wedi ei wneud
- Adran 119 – “Rheoleiddwyr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”
- Adran 122 – Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno
- Adran 123 – Rheoliadau uno
- Adran 130 – Rheoliadau ailstrwythuro
- Adran 156 – Rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru

4. **Adran 4 – Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth**

Er mwyn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg, disgwylir y bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan gynghorau er mwyn hybu ymwybyddiaeth pobl ifanc o drefniadau cofrestru fel etholwyr, ac unrhyw gamau ymarferol i helpu pobl ifanc, yn cael eu darparu yn Gymraeg.

### Swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol

5. Mae'r Comisiynydd wedi mynegi pryder ar sawl achlysur am rolau'r swyddogion canlyniadau a'r swyddogion cofrestru etholiadol, nad ydynt yn ddarostyngedig i ddyletswyddau ieithyddol statudol. Mae'r ffordd y mae'r swyddogion hynny yn



ymdrin â'r Gymraeg yn gymysg o'r herwydd, ac felly nid yw profiad siaradwyr Cymraeg yn gyfartal â phrofiad y di-Gymraeg. Tynnodd y Comisiynydd sylw at y sefyllfa hon ddiwethaf mewn gohebiaeth at yr Is-Adran Democratiaeth Llywodraeth Leol ar 3 Gorffennaf 2019. Ceir gwybodaeth bellach yn adroddiadau'r Comisiynydd ar Etholiad Cyffredinol 2015 ac Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd 2016.<sup>2</sup> Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn diwygio nifer o ddeddfau eraill yn ymwneud â threfniadau etholiadau. Dylid ystyried sut y gellid defnyddio'r Bil i sicrhau bod y swyddogion uchod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

6. **Adran 22 – Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais**

Yn dilyn y sylwadau uchod am swyddogion cofrestru etholiadol, anogir y Pwyllgor i ystyried sut y gellid sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth a lunnir gan y swyddogion hyn yn cael eu darparu yn Gymraeg.

7. **Adran 29 – Cyfieithiadau etc. o ddogfennau mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru**

Yn gysylltiedig ag Adran 22 nodir bod Adran 29 (3) y Bil, wrth ddiwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn cyfeirio at y person ("P") y mae gofyn iddo neu awdurdod ganddo i ddarparu dogfennau yn ymwneud ag etholiad llywodraeth leol. Nodwn, os yw "P" yn awdurdod lleol, bod dyletswydd arno i ddarparu dogfennau yn Gymraeg. Fodd bynnag, os yw "P" yn swyddog canlyniadau neu yn swyddog cofrestru etholiadol, ein dealltwriaeth yw nad yw'n debygol o fod o dan ddyletswydd ieithyddol o'r fath. Dylid sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir ynghylch y graddau y bydd swyddogaethau cofrestru a chanlyniadau etholiadol yn cael eu darparu yn y Gymraeg i'r un safon ac yn Saesneg mewn etholiadau llywodraeth leol.

8. **Adran 31 – Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer eang i awdurdodau lleol. Hoffai'r Comisiynydd dderbyn sicrwydd y bydd y dyletswyddau y mae safonau'r Gymraeg wedi eu gosod ar awdurdodau yn berthnasol iddynt hefyd wrth iddynt ddefnyddio'r pŵer hwn. Mae'r

2

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Arolwg%20Etholiad%20Cyffredinol%202015.pdf>;

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20Etholiad%20Cymraeg.pdf>

**Comisiynydd y Gymraeg**

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

**Welsh Language Commissioner**

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221

[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)

**Correspondence welcomed in Welsh and English**

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)



rhain yn cynnwys y dyletswydd a osodir gan y safonau llunio polisi i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

9. **Adran 34 – Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol**  
Eglura'r adran hon bod rhaid i awdurdod lleol weithredu drwy gyfrwng cwmni wrth wneud pethau at ddiben masnachol. Hoffem dderbyn sicrwydd na fyddai trefniant o'r fath yn tanseilio sefyllfa'r Gymraeg na hawliau unigolion yn sgil y safonau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan awdurdodau lleol. Cyfeiriat at fy ymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft (27 Ionawr 2016) ac ar y Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (27 Ebrill 2015).<sup>3</sup> Tynnais sylw yn yr ymatebion hyn at bwysigrwydd diogelu hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau Cymraeg yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg, wrth drosglwyddo cyfrifoldebau i drydydd partïon. Hoffwn bwysleisio fod gan awdurdodau lleol hawl i osod amodau ar drydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Dylai'r amodau hyn gynnwys ymrwymïadau sy'n sicrhau y cyflawnir dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Unwaith eto, mae gofynion y safonau llunio polisi yn berthnasol yn yr achos hwn.
10. **Adran 47 – Strategaeth ar annog cyfranogiad**  
Dylai'r strategaeth a ddisgrifir yn yr adran hon gael ei llunio a'i chyhoeddi yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg.
11. **Adran 48 – Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu**  
Dylai awdurdodau lleol ystyried sut orau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cyfrannu at unrhyw ymgynghoriadau ar y strategaeth.
12. **Adran 51 – Canllawiau ar gyfer swyddogaethau o dan y Bennod hon**  
Dylai unrhyw ganllawiau a lunnir ddarparu arweiniad ar weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg.
13. **Adran 53 – Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol**  
Yng nghyd-destun darlledu cyfarfodydd, nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil y byddai cydymffurfio â gofynion y Gymraeg yn codi heriau, gyda'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gweithio yn y gwahanol leoliadau. Hoffem bwysleisio na ddylai darllediad electronig gyfyngu ar allu unrhyw un sy'n mynychu cyfarfod o bell i fanteisio ar ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd. Dylai unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru drafod yr egwyddor hon.
14. **Adran 74 – Canllawiau ynglŷn â chydweithio**  
Yng nghyd-destun cydweithio rhwng cynghorau, dylai unrhyw ganllawiau a lunnir gan Weinidogion Cymru ystyried effeithiau posibl cydweithio o'r fath ar allu'r

---

3



gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Ceir amrywiaeth fawr rhwng awdurdodau lleol o safbwynt canran y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y gweithlu, o 1.4% yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i 94% yng Nghyngor Gwynedd. Ceir amrywiaeth hefyd rhwng awdurdodau sy'n ffinio â'i gilydd. O'i gymharu â gweithlu Cyngor Gwynedd, er enghraifft, 19% o weithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r safonau gweithredu y mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy yn gofyn iddynt ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn yr awdurdod. Mae'r safonau hefyd yn manylu ar faterion yn ymwneud â recriwtio, rhannu gwybodaeth recriwtio, technoleg gwybodaeth, meithrin sgiliau a hyfforddi staff. Bydd yr awdurdodau ar hyn o bryd ar gamau gwahanol yn y math o bolisiau y byddant yn eu mabwysiadu ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Fel sy'n hysbys, er enghraifft, y Gymraeg yw cyfrwng iaith gweinyddiaeth Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mynegi bwriad i weinyddu yn Gymraeg tra bod Cyngor Sir Gâr yn bwriadu y bydd adrannau penodol o'r cyngor yn gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan ddaw yn fater o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, dylid sicrhau bod yr ymrwymadau cryfaf o safbwynt gweinyddu'n Gymraeg yn cael eu mabwysiadu wrth gydweithio. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y canllawiau a lunnir gan Weinidogion Cymru.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* y Llywodraeth yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac un o'i nodau yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector. Tynna'r strategaeth sylw at ddylanwad safonau'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn:

“Mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi darparu fframwaith i sicrhau bod cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio a Safonau'r Gymraeg yn darparu gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid. Golyga hyn fod y cyrff dan sylw wedi gorfod gwella'r ffordd y maent yn cynllunio eu gweithlu dwyieithog a nodi swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Mae hyn, yn ei dro, wedi darparu mwy o gyfleoedd i unigolion gydnabod, gwella neu ddysgu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Mae rhai cyrff eisoes yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol, gan gynyddu'r galw am sgiliau

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Cymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio. Fel prif gyflogwyr gwasanaethau rheng-flaen cyhoeddus yng Nghymru, bydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd llywodraeth leol a'r sector iechyd a gofal yn hynod bwysig yn hyn o beth.”

Mae'n hanfodol bod cydweithio rhwng cynghorau yn cefnogi'r datblygiadau hyn yn hytrach na'u tansellio.

15. **Pennod 3 – Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan fo cais wedi ei wneud**  
Wrth gynllunio cydweithio ffurfiol rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys trwy gyd-bwyllgorau corfforedig, dylid ystyried dyletswyddau'r awdurdodau hynny dan safonau'r Gymraeg a sicrhau y gwarchodir y Gymraeg dan y trefniadau newydd. Yn benodol, dylid cadw gofynion y safonau polisi mewn cof wrth ystyried sefydlu cyd-bwyllgorau ac amlygu hynny wrth i awdurdodau lleol ddod i benderfyniad. Dylai'r Bil egluro beth fyddai statws cyfreithiol y cyd-bwyllgorau corfforedig er mwyn osgoi amwyster ac er mwyn i'r cyd-bwyllgorau weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg cyn gynted ag y bo modd os bernir mai cyrff statudol ydynt â'r un statws â'r awdurdodau lleol. Fel y nodir uchod wrth drafod cydweithio rhwng awdurdodau, rhaid sicrhau bod yr arferion cryfaf o safbwynt defnyddio'r Gymraeg yn cael eu mabwysiadu os bydd cydweithio ffurfiol yn digwydd.
16. **Adran 119 – “Rheoleiddwyr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”**  
Gofynnwn pa ystyriaeth a roddwyd i gynnwys y Comisiynydd ymhlith y rheoleiddwyr perthnasol. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ei restru ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 fel rheoleiddiwr perthnasol a chafodd y cyfrifoldeb hwnnw ei drosglwyddo i'r Comisiynydd.
17. **Adran 122 – Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno**  
Yng nghyd-destun cheisiadau i uno cynghorau, dylai unrhyw ganllawiau a lunnir gan Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried effeithiau posibl cam o'r fath ar y Gymraeg yn unol â'r safonau llunio polisi. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun gallu'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fel y nodir uchod.
18. **Adran 123 – Rheoliadau uno**  
Dylai unrhyw reoliadau uno a lunnir gan Weinidogion Cymru sicrhau bod y dyletswyddau ar yr awdurdodau perthnasol mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i'r cyngor newydd yn ddi-oed. Mae'n hanfodol osgoi cyfnod lle nad oes gofynion o safbwynt y Gymraeg mewn grym.
19. **Adran 130 – Rheoliadau ailstrwythuro**  
Hoffem wneud yr un sylwadau yng nghyd-destun rheoliadau ailstrwythuro, a wneir ym mharagraff 18.
20. **Adran 156 – Rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru**  
Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y Comisiynydd ymhlith yr aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth a restrir yn Nhabl 2.



Diolch unwaith eto am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn a gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

**Comisiynydd y Gymraeg**

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygybraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.wales

**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales